



*Cynllun Gweithredu  
Cenedlaethol ar  
gyfer*

*Concordat Gofal  
Mewn Argyfwng  
Cymru*

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Concordat Gofal Mewn Argyfwng Cymru 2019 i 2022

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl (y 'Concordat') gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn 2015. Mae'n ddatganiad a rennir o ymrwymiad sydd wedi'i gymeradwyo gan uwch arweinwyr o'r sefydliadau sy'n cyfrannu fwyaf at y gwaith o gefnogi ac ymateb i bobl o unrhyw oedran sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl neu y mae eu hiechyd meddwl yn dirywio'n sylweddol ac y gallai arwain at argyfwng. Roedd y Concordat yn eglugo'r ffyrdd y dylai asiantaethau sy'n bartneriaid gydweithio er mwyn darparu ymateb o ansawdd uchel i'r grŵp hwn o bobl sydd angen asesiad a/neu ymyrraeth, ac a allai fod mewn cysylltiad â'r heddlu, ac o bosibl gael eu cadw dan adran 135 neu adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA).

Ar hyd a lled Cymru, mae'r ffocws yn parhau ar leihau'r angen i'r heddlu ddefnyddio eu pwerau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl oni bai nad oes unrhyw ddewis arall, ac i bobl sydd mewn argyfwng neu sydd mewn risg o argyfwng gael eu cefnogi'n effeithiol gan wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Dylid cydgysylltu'r gwasanaethau hyn, eu darparu mewn partneriaeth a sicrhau bod cymorth, cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth ar gael yn rhwydd cyn gynted â phosibl, a thrwy wneud hynny helpu i atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa o argyfwng.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn yn rhestru'r camau y dylid eu gweithredu er mwyn cefnogi pob un o bedwar egwyddor graidd y Concordat yn ogystal â dwy o rai ychwanegol (gweler isod). Mae hyn yn cyd-fynd â pholisïau, strategaethau a deddfwriaeth gyfredol Cymru ac mae'n croesgyfeirio'n benodol â strategaeth Cymru gyfan 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' (T4MH) er mwyn helpu i hwyluso a monitro'r broses o'i chyflawni. Rydym yn disgwyl i'r broses o gyflawni'r camau a nodir yn y ddogfen hon gael eu mesur a'u cyfrifo'n briodol drwy weithredu Cynllun Cyflawni T4MH, ac er nad yw'r canlyniadau a nodir yma'n dargedau perfformiad penodol ac nad oes angen eu mesur yn uniongyrchol fel rhan o'r cynllun hwn, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth o ganlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dylid ystyried y cynllun hwn fel dogfen fyw/weithio a'i ddefnyddio mewn cydweithrediad â'r Concordat gwreiddiol sy'n darparu manylion cynhwysfawr pellach a'r egwyddorion craidd, y trefniadau llywodraethu, y diben, y nod a'r cwmpas, yn ogystal â'r partneriaid sydd wedi ymrwymo iddo ac yn ei gefnogi. Dylid diweddarau cynlluniau rhanbarthol i adlewyrchu'r camau a'r canlyniadau a nodir yn y ddogfen hon.

## Nodau cyffredinol y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol

- Sicrhau bod ffocws gwasanaethau ar ddiogelwch ac anghenion yr unigolyn sydd angen cymorth
- Dylai gwasanaethau ddangos bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu
- Sicrhau bod lleoliadau iechyd amgen a lleoliadau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd gan gynnwys lleoliadau cymunedol ar gael ac yn cael eu defnyddio i raddau mwy
- Sicrhau bod pobl yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel a phriodol ar draws gwasanaethau a rhyngddynt
- Parhau i ddatblygu, dysgu a rhannu syniadau newydd ac arloesedd ar draws asiantaethau/sefydliadau

- Darparu dolenni i strategaethau a chynlluniau presennol a'u defnyddio, a bod yn agored a thryloyw wrth adrodd ar gynnydd

## Egwyddorion craidd

Mae'r Concordat wedi'i strwythuro o amgylch y pedair egwyddor graidd ganlynol:

- Sicrhau bod gan bobl fynediad effeithiol i gymorth cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng
- Sicrhau bod gan bobl fynediad brys i ofal argyfwng pan fo angen hynny arnynt
- Sicrhau bod pobl yn derbyn triniaeth o ansawdd gwell ac yn cael budd therapiwtig o ofal mewn argyfwng
- Sicrhau bod pobl yn gwella, yn aros yn iach ac yn derbyn cymorth ar ôl argyfwng

Mae dwy egwyddor graidd arall wedi'u hychwanegu at y cynllun gweithredu hwn:

- Sicrhau data mwy ystyrlon o ansawdd gwell, gyda dadansoddiadau effeithiol er mwyn deall yn well a yw anghenion pobl yn cael eu diwallu'n amserol ac yn effeithiol
- Cynnal a gwella cyfathrebu a phartneriaethau rhwng yr holl asiantaethau/sefydliadau, gan annog perchnogaeth, a sicrhau bod pobl yn derbyn gofal, cymorth a thriniaeth ddi-dor a chydgyssylltiedig

## Polisi a Deddfwriaeth

Yng Nghymru, mae polisi a deddfwriaeth iechyd meddwl yn pwysleisio pwysigrwydd atal pobl rhag bod mewn argyfwng neu wynebu risg o argyfwng, a'u cefnogi. Cyhoeddwyd 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn 2012 a dyma strategaeth iechyd meddwl drosfwaol Cymru. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at yr angen i bobl fod yn rhan o'u gofal, eu cymorth a'u triniaeth eu hunain a'u bod wrth wraidd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn cael eu sefydlu a'u cynnal hefyd. Ers ei chyhoeddi, mae nifer o ganllawiau polisi ategol wedi'u cyhoeddi yn ymwneud â; gwasanaethau cyswllt cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cyn-filwyr sydd yn y carchar, plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Ieuencid, gofal a thriniaeth pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n camddefnyddio sylweddau'r un pryd ac ati. Mae mentrau a rhaglenni cenedlaethol eraill wedi'u datblygu fel y 'Rhaglen Gofal Heb Ei Drefnu' a'r 'Rhaglen Camau Cynnar Gyda'u Gilydd'.

Mae yna bedwar darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y broses o gyflawni'r Concordat a'r rhaglen weithredu hon sy'n cyd-fynd ag ef:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Deddf 83) (*gweler newidiadau penodol hefyd i a135 ac a136 y Deddf Iechyd Meddwl yn Neddf Plismona a Throsedd 2017 (Rhan 4, Pennod 4)*) a Chod Ymarfer Cymru ar gyfer MHA 1983 sy'n darparu canllawiau manwl ar ymatebion gofynnol i bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (y Mesur) (a'i reoliadau ategol, canllawiau a'r Cod Ymarfer i Ran 2 a 3 y Mesur). Mae'r Mesur yn rhoi dyletswyddau statudol ar gydgyssylltu gofal a'r broses o greu cynlluniau gofal a thriniaeth (CGTau) ar gyfer pobl

sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol hefyd er mwyn asesu unigolyn sy'n gwneud cais am asesiad o'r fath pan fydd wedi cael ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf heb fod angen atgyfeiriad gan ei feddyg teulu.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl ac yn rhoi dyletswydd i lunio cynlluniau gofal a chymorth. Mae'n cynnwys ffocws sylweddol ar weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau/sefydliadau hefyd.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n rhoi cyfrifoldeb ar sefydliadau i feddwl yn y tymor hirach, atal problemau rhag digwydd, a meithrin agwedd sy'n fwy cyfunol a chydweithredol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru hefyd.

Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei ystyried ar wahân neu'n wahanol i'r polisiau, y rhaglenni a'r darnau hyn o ddeddfwriaeth ond ei fod yn cael ei ystyried yn rhan annatod ohonynt.

## **Llywodraethu a sicrwydd**

Mae 'Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl a Chyfiawnder Troseddol' amlasiantaethol (BPIMCTau) (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt) wedi'u sefydlu ar draws pedair ardal yr Heddlu yng Nghymru. Mae'r Byrddau hyn yn darparu mecanwaith er mwyn sicrhau newidiadau a gwelliannau. Maen nhw'n gyfrifol am oruchwylio a monitro cynlluniau gweithredu rhanbarthol a ddatblygwyd er mwyn mynd i'r afael ag egwyddorion craidd y Concordat. Dylai BPIMCTau dderbyn sicrwydd bob chwarter bod y camau a nodir yn y cynllun cyflawni hwn yn cael eu gweithredu'n lleol. Dylent dderbyn sicrwydd hefyd bod pobl y mae eu hiechyd meddwl wedi dirywio gan eu rhoi mewn sefyllfa o argyfwng, neu a oedd mewn risg o gyrraedd sefyllfa o argyfwng, yn derbyn cymorth, cefnogaeth, cyngor, triniaeth a gofal amserol. Dylai BPIMCTau roi sicrwydd i'r Grŵp Sicrhau Concordat cenedlaethol bob chwarter bod y gofynion a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu cyflawni. Bydd y Grŵp Sicrhau Concordat cenedlaethol yn darparu sicrwydd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bob chwe mis bod y Concordat yn cael ei weithredu'n effeithiol ac, os nad ydyw, y rhesymau pam a'r camau unioni sy'n cael eu cymryd.



| <b>Egwyddor Graidd 1: Mynediad i gefnogaeth cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng</b> |   |                                    |                                  |
|--|---|------------------------------------|----------------------------------|
| <b>Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon</b>                           | <b>Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol</b> | <b>Ffynonellau Data/Gwybodaeth</b> | <b>Canlyniadau i anelu atynt</b> |
|  |   |                                    |                                  |

|   |   |   |  |
|---|---|---|--|
| <p>1.1 Sicrhau bod gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gynllun Argyfwng cynhwysfawr sy'n cynnwys Cynllun Wrth Gefn a phwy i gysylltu â nhw pan fo unigolion angen cymorth neu gefnogaeth, a manylion priodol o gymorth wedi'i gynllunio er mwyn lleddfu unrhyw argyfwng</li> <li>Mynediad rhwydd a chyflym i wasanaeth atal argyfwng (<i>gallai hyn fod yn wasanaeth statudol fel Tim Argyfwng neu'n wasanaeth cymunedol fel caffï argyfwng, ac ati.</i>)</li> <li>Yn cael eu cefnogi neu eu cyfeirio'n briodol i ffynonellau amgen o gymorth wrth gysylltu â gwasanaethau gofal iechyd/gofal cymdeithasol statudol neu wasanaethau cymunedol /trydydd sector, ac yn gwybod ym mhle i gael gwybodaeth</li> </ul> <p>1.2 Sicrhau bod gan bobl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fynediad amserol i wasanaethau gofal sylfaenol</li> <li>Mynediad amserol i wasanaeth atal argyfwng yn y gymuned, e.e. caffï argyfwng neu wasanaeth cymunedol lleol arall</li> <li>Yn cael eu cefnogi neu eu cyfeirio'n briodol wrth gysylltu â gwasanaethau iechyd/gofal cymdeithasol statudol neu wasanaethau cymunedol/trydydd sector ac yn gwybod sut i dderbyn gwybodaeth ac ym mhle</li> </ul> | <p><i>Y Mesur a MHA 1983 (diwygiwyd 2007)</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Sicrhau bod gan bobl sydd â phroblem iechyd meddwl fynediad i wasanaethau priodol ac amserol</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Sicrhau bod gan bobl sydd â phroblem iechyd meddwl a nodwyd fynediad amserol i therapïau seicolegol amrywiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Sicrhau gwasanaethau amserol a phriodol i bobl yn ystod eu pwl cyntaf o seicosis</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Pobl i gael mynediad i wybodaeth a chynghor priodol er mwyn hyrwyddo lles meddyliol ac i helpu i ddeall/rheoli eu cyflwr</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Hyrwyddo lles meddyliol a lle y bo'n bosibl atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Sicrhau bod yna gysylltiadau cryf rhwng gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl</i></p> | <p>Archwiliadau lleol o CGTau yn cynnwys ansawdd cynlluniau argyfwng ac wrth gefn</p> <p>Cofnodion o wasanaethau ymyrraeth gynnar</p> <p>Cofnodion o byliau cyntaf o seicosis</p> <p>Data meddygon teulu</p> <p>Cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty</p> <p>Cofnodion meddygon teulu</p> <p>Cofnodion Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Lleol, Sylfaenol (LPMHSS)</p> <p>Cofnodion y trydydd sector</p> <p>Cofnodion o linell cymorth CALL</p> | <p>Llai o achosion o ail-dderbyn i'r ysbyty</p> <p>Mynediad cynharach i wasanaethau</p> <p>Gostyngiad yng nghyfraddau defnyddio a136</p> <p>Dewisiadau amgen i dderbyniadau i'r ysbyty</p> <p>Cyfraddau hunan-niweidio a hunanladdiad is</p> <p>Llai o atgyfeiriadau diangen o ofal sylfaenol i ofal eilaidd</p> <p>Cyfraddau is o hunan-niweidio a hunanladdiad</p> <p>Sgôr gwell o ran lles meddyliol</p> <p>Mwy o gymorth, gofal a thriniaeth mewn gofal sylfaenol gyda llai o atgyfeiriadau amhriodol i ofal eilaidd</p> <p>Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) – Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd</p> |
| <p><b>Egwyddor Graidd 2: Mynediad brys ac argyfwng i ofal argyfwng</b></p>  |   |   |  |

| Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon   | Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol  | Ffynonellau Data/Gwybodaeth   | Canlyniadau i anelu atynt   |
|---|---|---|---|
| <p>2.1 Sicrhau bod gan bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fynediad i wasanaeth lleol sydd ar gael 24/7</li> <li>Eu bod yn derbyn cymorth diogel – yn cael eu trin ag urddas a pharch</li> <li>Os ydynt yn cael eu cadw dan a136 eu bod yn cael eu cludo i leoliad diogel sy'n briodol i'w hanghenion, gan gynnwys lleoliadau diogel amgen fel caffi argyfwng, tŷ argyfwng, noddfa</li> <li>Eu bod yn derbyn asesiad amserol o anghenion yn unol â chanllawiau Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol cyfredol</li> <li>Eu bod yn derbyn cymorth, cefnogaeth, gofal a thriniaeth amserol</li> <li>Bod ganddynt lwybr atgyfeirio brys o ofal sylfaenol</li> </ul> <p>2.2 Mae gan yr Heddlu, Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol brotocol a gytunwyd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Llai o angen i'r heddlu ddefnyddio pwerau dan a136</li> <li>Defnyddio dull diogel a phriodol o drosglwyddo er mwyn diwallu anghenion pobl yn y ffordd orau</li> <li>Pobl yn cael eu dargyfeirio'n gyflym a rhwydd o wasanaethau cyfiawnder troseddol i wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cysylltiadau uniongyrchol i dimau argyfwng ar gyfer a136 ac asesiadau gwirfoddol</li> <li>Pobl â salwch meddwl y mae alcohol neu gyffuriau wedi effeithio arnynt yn cael gwasanaeth amserol a phriodol</li> </ul> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: - gwasanaethau Iechyd Meddwl amserol a phriodol i bobl â phroblemau iechyd meddwl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: - sicrhau bod gan bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yr un pryd yn cael eu rheoli'n effeithiol</i></p> <p><b>'Beth am Siarad â Fi 2'</b> Amcan 2: <i>Ymatebion priodol i argyfyngau personol, ymyrraeth gynnar a rheoli hunanladdiad a hunan-niweidio</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: sicrhau bod pawb sydd mewn argyfwng ac mewn cysylltiad â'r heddlu'n cael eu trin ag urddas a pharch</i></p> <p><i>SSWBA (14); IM (W) M (10) a MHA</i></p> <p><i>'Fframwaith gwasanaeth ar gyfer trin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yr un pryd'</i></p> <p><i>Deddf Iechyd Meddwl 1983</i></p> <p><i>Deddf Plismona a Throsedd 2017 Rhan 4 Pennod 4</i></p> | <p>Data a135 a a136 data</p> <p>Gofal heb ei drefnu ED</p> <p>Gwaith data craidd</p> <p>Data o adborth gan gleifion/defnyddwyr gwasanaethau</p> <p>Cynlluniau gweithredu ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio</p> <p>Adborth gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd</p> <p>Archwiliadau ynglŷn â chanlyniadau o atgyfeiriadau ac asesiadau</p> <p>Data ar y defnydd o a135 ac a136 a chyfraddau trosi i ddewis anffurfiol neu a2 neu a3</p> <p>Data'r Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans ar drawsgludo a data</p> | <p>Mwy o ddefnydd o adnoddau lleol/cymunedol (llai o ddefnydd o a136)</p> <p>Gwell profiad i gleifion yn ED</p> <p>Asesu cyflymach a mynediad cyflymach i driniaeth</p> <p>Cyfraddau hunan-niweidio is</p> <p>Cyfraddau hunanladdiad is</p> <p>Llai o 'ddigwyddiadau difrifol' neu 'ddigwyddiadau byth'</p> <p>Canfod anghenion Iechyd Meddwl yn gynnar pan fo unigolion yn nalfa'r Heddlu a/neu eu cyfeirio'n gyflym i wasanaeth cymorth priodol</p> <p>Mwy o bobl yn cael eu dargyfeirio o wasanaethau cyfiawnder troseddol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Pobl yn cael trafndiaeth briodol a diogel i wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion</p> <p>Llai o bobl yn cael eu symud o un gwasanaeth i'r llall</p> |



|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Plant a phobl ifanc byth yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu dan a136</li> <li>Cyngor/cymorth clinigol ar gael mewn amser real o ystafelloedd rheoli'r Heddlu a bod cyngor proffesiynol Iechyd Meddwl ar gael bob amser i'r Heddlu</li> </ul> |  | awdurdodau lleol ar gadw unigolion dan MHA |  |
|--|--|--|--|

**Egwyddor graidd 3: Triniaeth o ansawdd a gofal therapiwtig pan fo unigolyn mewn argyfwng**

| <b>Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon</b>   | <b>Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol</b>  | <b>Ffynonellau Data/Gwybodaeth</b>   | <b>Canlyniadau i anelu atynt</b>   |
|--|--|--|--|
| <p>3.1 Sicrhau bod pobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael eu trin ag urddas a pharch yn barhaus ac yn derbyn gwasanaeth diogel sy'n diwallu eu hanghenion</p> <p>3.2 Sicrhau bod cyn lleied â phosib o ddefnydd yn cael ei wneud o fesurau atal, a bod yr holl staff perthnasol yn cael eu hyfforddi mewn technegau a phrosesau dad-ddwysáu</p> <p>3.3 Sicrhau bod y gofal yn cael ei drosglwyddo'n ddi-dor rhwng gwasanaethau ac ar eu traws, a bod gwasanaethau cyswllt effeithiol ar waith</p> <p>3.4 Sicrhau bod gan bobl wybodaeth gywir, amserol a chyfredol a'u bod yn ymwybodol o'u hawliau</p> <p>3.5 Sicrhau bod y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau pobl yn briodol o'r ysbyty yn digwydd cyn gynted â phosibl, ac yn dilyn eu rhyddhau bod cymorth dilynol priodol yn cael ei ddarparu o fewn amserlenni wedi'u targedu.</p> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: - sicrhau bod yr holl wasanaethau wedi'u cynllunio a'u cyflawni'n ddiogel, gyda pharch</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: - sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt a'u bod yn rhan lawn o benderfyniadau am eu gofal eu hunain/gofal aelod o'r teulu</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Llywodraeth Cymru i adolygu'r graddau y mae ymyraethau mwy strwythuredig yn cael eu darparu ac ar gael ar gyfer unigolion yn y gymuned sydd ag anhwylder personoliaeth, problemau iechyd meddwl a phryderon yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau</i></p> | <p>Adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau</p> <p>Adroddiadau arolygu/archwilio gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru</p> <p>Adrodd am 'ddigwyddiadau difrifol' a 'Digwyddiadau byth'</p> <p>Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)</p> <p>Achredu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol (AIMS)</p> <p>Adroddiadau ar Gynllun Cyflawni T4MH</p> | <p>Bod y gofal, y cymorth a'r driniaeth a ddarperir mewn argyfwng yn brofiad cadarnhaol i fwy o bobl</p> <p>Bod pobl yn treulio llai o amser amhriodol yn yr ysbyty</p> <p>Bod pobl yn cael cymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion unwaith y maen nhw'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty</p> <p>Bod mwy o bobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael cefnogaeth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hytrach nag asiantaethau cyfiawnder troseddol</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>3.6 Sicrhau bod yna amrywiaeth eang o weithgareddau therapiwtig ar gael i bobl eu gwneud tra byddant yn yr ysbyty</p> <p>3.7 Sicrhau bod gwasanaethau'n dangos eu bod yn diwallu canllawiau a safonau cenedlaethol mewn perthynas â gofal cleifion mewnol</p> |  |  |  |
|--|--|--|--|

**Egwyddor Graidd 4: Gwella ac aros yn iach**

| Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon  | Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol  | Ffynonellau Data/Gwybodaeth   | Canlyniadau i anelu atynt  |
|--|---|---|--|
| <p>4.1 Dylai Cynlluniau Gofal a Thriniaethau (CGTau) ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwyddion rhybudd cynnar o argyfwng neu ail bwl o salwch – cofnodi meddyliau, teimladau a/neu ymddygiad a allai awgrymu pan fo unigolyn yn cael pwl o salwch</li> <li>• Camau sydd angen eu cymryd os yw unigolyn yn cael pwl o salwch ('cynllun argyfwng')</li> <li>• Manylion a chysylltiadau cymorth lleol sydd ar gael er mwyn helpu i atal amgylchiadau unigolyn rhag gwaethygu i sefyllfa o argyfwng</li> <li>• Yr unigolyn y mae'r claf dan sylw yn ymateb orau iddo a'r unigolyn y mae'r claf am i'r gwasanaethau gysylltu ag ef/hi pan fydd yn cael pwl o salwch</li> </ul> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Pobl â phroblemau iechyd meddwl i gael mynediad teg i dai a chymorth cysylltiedig â hyrwyddo mynediad i wasanaethau iechyd meddwl ymysg pobl sy'n ddigartref neu sy'n cael tai oherwydd eu bod yn agored i niwed</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: cynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl i gadw swydd a gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n ddi-waith a bod ganddynt fynediad i gyngor a chymorth ar faterion ariannol</i></p> | <p>Archwilio CGTau</p> <p>Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr</p> <p>Gwasanaethau cymorth tai</p> <p>Gwasanaethau di-waith</p> <p>Gwasanaethau cyngori ariannol</p> <p>Llinell Gymorth CALL</p> <p>Gwasanaethau mentora cymheiriaid</p> | <p>Bod pobl sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn aros yn iach yn hirach</p> <p>Bod mwy o bobl sy'n byw â chyflwr iechyd meddwl yn byw'n annibynnol</p> <p>Llai o achosion o ail-dderbyn i'r ysbyty</p> <p>Bod mwy o bobl sy'n byw â chyflwr iechyd meddwl mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg</p> <p>Bod mwy o bobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl yn cael tai diogel o ansawdd da</p> |

|   |   |  |   |
|---|---|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi ffactorau sy'n arwyddocaol o ran gallu'r unigolyn i barhau mor annibynnol â phosibl</li> <li>Gyda chaniatâd, dylai CGTau fod ar gael i wasanaethau y mae pobl yn eu galw pan fo sefyllfa o argyfwng</li> </ul> <p>4.2 Mae pobl sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd neu fel arall nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn gallu cael gafael ar gymorth, cyngor, gwybodaeth, cefnogaeth a thriniaeth pan fyddant ei angen</p> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: cynyddu'r graddau y mae gwasanaethau iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar adferiad ar gael</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Sicrhau bod gan bobl fynediad i wybodaeth a chyngor priodol</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Hyrwyddo lles meddyliol a lle y bo'n bosibl atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu</i></p> <p><i>Mesur Iechyd Meddwl Rhan 3</i></p> | <p>Dangosyddion ansawdd bywyd</p> <p>Cofnodion LPMHSS</p> <p>Cofnodion a/neu adborth y trydydd sector</p> <p>Data Rhan 3</p> | <p>Bod mwy o bobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl yn gwybod ble i gael cymorth, cyngor a gwybodaeth</p> |
|---|---|--|---|

**Egwyddor graidd 5: Data a dadansoddiadau**

| Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon   | Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol   | Ffynonellau Data/Gwybodaeth  | Canlyniadau i anelu atynt   |
|---|--|--|---|
| <p>5.1 Sicrhau bod data ansoddol a meintiol ystyrion a chywir yn cael ei gasglu a'i gadw i ddangos bod anghenion pobl mewn argyfwng, neu sydd mewn risg o fod mewn argyfwng, yn cael eu diwallu</p> <p>5.2 Sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n briodol ar draws ac o fewn asiantaethau a sefydliadau yn unol â deddfwriaeth diogelu data</p> <p>5.3 Sicrhau bod y broses o ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth neu, os nad ydyw, ei bod yn rhan o raglen beilot/dreialu</p> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu set ddata graidd genedlaethol ar gyfer iechyd meddwl gan gasglu canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: Parhau i gefnogi dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau bod gwaith ymchwil a gwerthuso gweithredol wrth wraidd y gwaith o ddatblygu gwasanaethau</i></p> | <p>Adroddiadau sicrwydd a ddarperir i BPIMCTau</p> <p>BPIMCTau yn rhoi sicrwydd i CAG cenedlaethol bob chwarter</p> <p>Set ddata graidd genedlaethol</p> | <p>Bod yna dystiolaeth ar gael sy'n dangos y ffordd y mae gwasanaethau'n helpu pobl i wella ac sy'n diwallu eu hanghenion</p> <p>Cynyddu gwybodaeth a dysgu ar draws ac o fewn sefydliadau ac asiantaethau</p> <p>Sicrwydd y bydd mwy o ffocws ar ddarparu'r hyn sy'n bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p> |

## Egwyddor graidd 6: Cyfathrebu a phartneriaethau

| Camau i helpu i fynd i'r afael a'r egwyddor hon   | Dolen i ddeddfwriaeth/cynlluniau presennol  | Ffynonellau Data/Gwybodaeth   | Canlyniadau i anelu atynt   |
|---|---|---|---|
| <p>6.1 Sicrhau bod yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi pobl mewn argyfwng yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol</p> <p>6.2 Sicrhau y gall pobl gael mynediad i wasanaethau a'u derbyn yn y Gymraeg pan fyddant yn dymuno hynny</p> <p>6.3 Sicrhau bod prosesau cyfathrebu effeithiol ar draws ac o fewn asiantaethau/sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi pobl mewn argyfwng</p> <p>6.4 Sicrhau bod strategaeth gyfathrebu ranbarthol ar waith sy'n rhoi gwybodaeth i randdeiliaid a phartneriaid am y Concordat a'i effaith</p> | <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr yn rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd angen a chynyddu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithlu</i></p> <p><i>Cynllun Cyflawni T4MH: sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio er mwyn darparu dull integredig</i></p> | <p>Darparu adroddiadau sicrwydd i BPIMCTau</p> <p>BPIMCTau yn rhoi sicrwydd i CAG cenedlaethol bob chwarter</p> | <p>Bod pobl yn cael gwasanaeth didor a chyfunol yn ystod argyfwng</p> <p>Bod mwy o wybodaeth a dysgu ar draws ac o fewn sefydliadau ac asiantaethau</p> <p>Llai o wastraff a dyblygu, a llai o fiwrocratiaeth</p> |